Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# WelTAG 2017

## Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru

WG29831
© Hawlfraint y Goron 2016

## CYNNWYS

CYFLWYNIAD ........ 2

EGWYDDORION WelTAG ........ 5

CAMAU WelTAG ........ 7

PUM ACHOS WelTAG ........ 23

ADRODDIAD AR YR ASESIAD O EFFEITHIAU WelTAG ........ 30

CYFEIRIADAU ........ 38

# CYFLWYNIAD

## BETH YW WELTAG?


WelTAG yw'r enw a roddwyd ar Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio wrth ddatblygu, arfarnu a gwerthuso unrhyw ymyrraeth arfaethedig sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Fframwaith ydyw ar gyfer ystyried newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth. Mae'n cyd-fynd â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a'r arweiniad ar ddatblygu achosion busnes a nodir ym Model Pum Achos Llywodraeth Cymru ar gyfer Achosion Busnes y Sector Preifat.

Lluniwyd y broses WelTAG er mwyn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r gwaith o ystyried y broblem sydd dan sylw; nodi atebion posibl, mireinio cynllun yr opsiynau hynny er mwyn elwa i'r eithaf ar eu buddion a sicrhau bod cyn lleied o effeithiau andwyol â phosibl, ac ystyried yr ystod eang o ganlyniadau posibl a fyddai'n dilyn gweithredu'r atebion arfaethedig. Dylid ei chymhwyso i bob ymyrraeth trafnidiaeth, ni waeth beth yw'r gost, gan y bydd yn arwain at gynllunio ymyraethau gwell a mwy effeithiol. Bydd hefyd yn helpu gyda'r gwaith o rannu'r ddealltwriaeth o ran sut y disgwylir i ymyrraeth drafnidiaeth arfaethedig gyflawni'r amcanion dymunol a'r manteision a ddisgwylir.

## BETH YW'R BROSES WELTAG?

Mae WelTAG yn seiliedig ar gylch RAAMGA (Rhesymeg, Amcanion, Arfarnu, Monitro, Gwerthuso, Adborth) a ddangosir yn Ffigur 1 dros y dudalen. Mae'n cwmpasu cylch bywyd cyfan prosiect, o'r adeg pan nodir bod angen mynd i'r afael â phroblem yn y lle cyntaf tan werthusiad y camau a weithredir i ymdrin â'r broblem honno.

Mae cylch RAAMGA yn dechrau gyda datganiad o **resymeg** y prosiect. Mae hwn yn nodi'r angen am ymyrraeth yn y system drafnidiaeth ac yn datblygu cyfres eglur o **amcanion**. Mae'r cam **arfarnu** yn ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y cynllun ac yn asesu pa mor dda y mae opsiynau amrywiol y prosiect yn cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r cam hwn yn llywio datblygiad yr opsiynau amrywiol hynny a'r gwaith o ddewis y cynllun terfynol i'w weithredu. Mae'r cam **monitro** yn cwmpasu'r gwaith o olrhain perfformiad y prosiect wrth ei weithredu ac ar ôl ei weithredu, ac mae'r cam **gwerthuso** yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried beth sy'n gweithio a pham ei fod yn gweithio. Mae **Adborth** yn hanfodol; gall arwain at addasiadau i'r prosiect presennol ac mae'n darparu gwersi ar gyfer datblygu cynlluniau yn y dyfodol.




Ffigur 1: Cylch RAAMGA[1]

## PWY DDYLAI DDEFNYDDIO WELTAG?

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynllunio unrhyw ymyrraeth arfaethedig yn y system drafnidiaeth neu i unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwaith hwnnw. Bydd llawer o'r ymyraethau hyn yn gynlluniau sy'n cynnwys adeiladu seilwaith newydd, er enghraifft gorsaf reilffordd, llwybrau beiciau neu ffordd newydd. Gallant fod yn gynllun i ddarparu gwasanaeth, fel rhoi cyngor teithio neu ymyraethau eraill sy'n wariant refeniw yn hytrach na gwariant cyfalaf. Nid oes angen cymhwyso WelTAG i ddatblygiad polisïau a chynlluniau ond gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hynny.

Lluniwyd WelTAG i'w defnyddio gan y bobl sydd â diddordeb neu sy'n rhan o'r datblygu o unrhyw ymyrraeth arfaethedig yn y system drafnidiaeth. Bydd nifer o'r ymyrraethau hyn yn gynlluniau sy'n golygu adeiladu seilwiath newydd, megis gorsaf reilffordd, lôn beicio neu ffordd newydd. Gallai eraill fod yn ddarparu gwasanaeth, fel darparu cyngor ar deithio neu ymyrraethau eraill sy'n wariant refeniw yn hytrach na chyfalaf. Cafodd WelTAG ei gynllunio i'w ddefnyddio i ddatblygu ymyrraethau trafnidiaeth ond gellid ei ddefnyddio hefyd i ddatblygu polisïau a chynlluniau.

[1] HM Treasury – The Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government

## PRYD DYLID DEFNYDDIO WELTAG?

Argymhellir WelTAG fel y man cychwyn pan nodir problem yn y system drafnidiaeth neu mewn maes arall, ond mae'r broblem yn deillio o'r system drafnidiaeth neu'n effeithio arni. Gall yr atebion i'r broblem fod yn gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth yn unig neu gallant fod yn rhan o feysydd darparu eraill fel iechyd neu addysg. Yn y naill achos neu'r llall, argymhellir defnyddio WelTAG gan ei bod yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried y materion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau angenrheidiol. Mae'n darparu dulliau ar gyfer rhannu dealltwriaeth o'r materion sy'n rhan o'r broblem dan sylw a'r atebion posibl ar draws sectorau amrywiol, nid trafnidiaeth yn unig.

Mae'n rhaid defnyddio'r broses WelTAG ar gyfer pob prosiect trafnidiaeth a ariennir yn rhannol neu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Argymhellir ei defnyddio wrth asesu unrhyw ymyrraeth sy'n effeithio ar y system drafnidiaeth, beth bynnag yw'r ffynhonnell ariannu, gan y bydd fframwaith WelTAG yn helpu i ddatblygu a llunio'r cynllun arfaethedig.

## SUT MAE'N CYD-FYND Â SYSTEMAU ERAILL O ARFARNU TRAFNIDIAETH?

Gellir defnyddio proses gyffredinol WelTAG ar gyfer pob ymyrraeth drafnidiaeth, beth bynnag yw'r dulliau trafnidiaeth yr effeithir arnynt. Ar gyfer rhai cynigion trafnidiaeth sy'n codi o'r broses WelTAG, bydd canllawiau arfarnu dulliau trafnidiaeth penodol, fel y broses Llywodraethu Prosiectau Buddsoddi mewn Rheilffyrdd (GRIP) a ddefnyddir gan y diwydiant reilffyrdd a'r Llawlyfr Cynllunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd (DMRB), yn berthnasol.

Dylid defnyddio WelTAG bob amser, hyd yn oed yn yr achosion hyn. Lluniwyd WelTAG i gyd-fynd â'r systemau arfarnu eraill hyn ac ni fydd yn dyblygu ymdrech. Yn hytrach, gellir trosglwyddo'r wybodaeth sy'n deillio o'r broses WelTAG i'r arfarniadau a gynhyrchir ar gyfer y prosiectau hyn ar gyfer dulliau penodol o drafnidiaeth. Er enghraifft, gallai arfarniad WelTAG nodi opsiwn rheilffordd fel yr ateb dymunol a fyddai wedyn yn agored i broses datblygu cynllun y diwydiant rheilffordd. Bydd y dystiolaeth y tu ôl i'r penderfyniad hwn a'r data a gesglir trwy'r arfarniad WelTAG yn berthnasol i'r arfarniad dilynol a gynhelir, gan ddefnyddio canllawiau GRIP y diwydiant rheilffyrdd.

Mae WelTAG hefyd yn cyd-fynd ag anghenion sefydliadau ariannu eraill, yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Bydd dilyn y broses WelTAG yn darparu llawer o wybodaeth, os nad yr holl wybodaeth, sy'n ofynnol ar gyfer ariannu ceisiadau i gyrff ariannu a sefydliadau ariannol eraill.

## ADNODDAU WELTAG

Mae system WelTAG yn cynnwys y ddogfen ganllaw hon, sy'n nodi'r broses WelTAG, a gwefan WelTAG sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon, sy'n darparu cymhorthion ychwanegol i bobl sy'n cynnal asesiad WelTAG.

Mae'r wefan yn cynnwys

- dolenni i ffynonellau data cyfredol,
- nodiadau briffio ar bynciau sy'n arbennig o berthnasol i ddefnyddwyr WelTAG
- ymatebion i Gwestiynau Cyffredin
- llyfrgell o adroddiadau ar y camau a gwblhawyd gan WelTAG, sy'n enghreifftiau i ddarlunio'r modd y defnyddir WelTAG mewn cynlluniau penodol
- manylion cyswllt ar gyfer desg gymorth WelTAG Llywodraeth Cymru

## EGWYDDORION WELTAG

### MAE WELTAG YN BROSES SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH.

Dylai tystiolaeth sydd wedi ei chofnodi'n dda fod yn sail i'r broses WelTAG gyfan.

Bydd disgrifiad o bob ateb posibl a nodir mewn arfarniad WelTAG ar gyfer y mater dan sylw yn cynnwys yr union allbynnau a ddarparwyd; yr effeithiau a ragwelir ar bobl, yr amgylchedd a'r economi; a naratif yn nodi sut y disgwylir i'r ymyrraeth arfaethedig gyfrannu at ddatrys y broblem dan sylw, a sut y daethpwyd i'r casgliad hwnnw. Mae'n rhaid i fanylion yr effeithiau a ddisgwylir a'r dulliau y bydd yr opsiynau yn eu defnyddio i ymdrin â'r broblem fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth ar gyflwr cyfredol y system drafnidiaeth a'r cyd-destun ehangach.

Gallai'r dystiolaeth ddod o ffynonellau data meintiol ac ansoddol, gan gynnwys astudiaethau achos o brofiadau mewn mannau eraill. Mae gwefan WelTAG yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau data sydd ar gael yn hwylus, fel data cyfrifiad a data eraill sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Dylid ymchwilio i'r cyfresi data hyn cyn comisiynu unrhyw arolygon pwrpasol. Dros amser, bydd gwerthusiadau a gwblheir gan WelTAG yn dod yn adnodd gwerthfawr i'w defnyddio wrth lunio cynlluniau, arfarniadau a blanoriaethu cynlluniau'r dyfodol.

### MAE WELTAG YN BROSES GYMESUR

Dylai lefel y manylion a ddarperir yn yr Adroddiadau WelTAG fod yn gymesur â'r effeithiau dan sylw. Dylid cyflwyno'r holl effeithiau a'r materion o bwys a allai gael dylanwad sylweddol ar y ddarpariaeth. Ond dylai lefel y manylion mewn unrhyw waith dadansoddol fod yn gymesur â graddfa a phwysigrwydd yr effaith ac yn ddigon cywir ar gyfer y penderfyniadau y mae angen eu gwneud.

Dylai gwerthusiad WelTAG nodi ystod gyfan effeithiau rhagweladwy yr atebion a gynigir**. Dylai lefel y manylion sy'n ofynnol ar gyfer asesiad pob un o'r effeithiau hyn fod yn gymesur â graddfa a difrifoldeb tebygol pob effaith.**

Mewn unrhyw achos pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol i ystyried effaith benodol, rhaid nodi hyn yn y dogfennau arfarnu. Mae'n rhaid gwneud y gwaith asesu priodol cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu unrhyw opsiwn penodol.

## MAE WELTAG YN BROSES GYDWEITHREDOL

Mae ymgysylltu yn bwysig trwy gydol arfarniad WelTAG. Ar ddechrau'r broses bydd yn help i ddeall y sefyllfa gyfredol, gosod amcanion, cynhyrchu rhestr hir o atebion posibl ac amlinellu'r ystod o effeithiau tebygol o'r gwahanol atebion hynny.

Yn ystod y gwaith mwy manwl o gynllunio ac asesu'r opsiynau ar y rhestr fer, bydd ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn helpu i gasglu tystiolaeth ar effeithiau pob un o'r atebion arfaethedig a chanlyniadau gwneud dim.

Yn ystod camau gweithredu a gwerthuso WelTAG, bydd ymgysylltu â phobl y bydd y cynllun yn effeithio arnynt yn help wrth gasglu tystiolaeth o'r union effeithiau, bwriadol neu fel arall, yr ateb a weithredir.

## MAE WELTAG YN BROSES GWNEUD PENDERFYNIADAU

Lluniwyd y broses WelTAG er mwyn rhannu dealltwriaeth rhwng y bobl hynny sy'n rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau a'r bobl hynny y bydd y penderfyniadau hynny yn effeithio arnynt. Mae hyn yn sail i bwysigrwydd cysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd wrth gasglu tystiolaeth o'r angen am ymyrraeth, pennu meini prawf ar gyfer asesu'r opsiynau arfaethedig, ac effeithiau tebygol pob opsiwn. Ond yn y pen draw mae angen gwneud penderfyniadau a lluniwyd y broses WelTAG er mwyn rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar y bobl hynny sy'n gwneud y penderfyniadau hyn.

## MAE WELTAG YN BROSES O DDYSGU

Nid rhwystr sy'n rhaid ei oresgyn er mwyn sicrhau cyllid yw WelTAG ond proses sy'n arwain at ddatblygu atebion gwell. Bydd dilyn y broses WelTAG yn arwain at rannu dealltwriaeth o'r broblem dan sylw yn ogystal â'r rhwystrau sy'n effeithio ar yr atebion posibl a dealltwriaeth o'r ystod lawn o effeithiau'r atebion arfaethedig.

Dros amser, bydd adroddiadau WelTAG a'u data ategol yn dod yn adnodd gwerthfawr a fydd yn dysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio mewn sefyllfaoedd penodol.

## CAMAU WELTAG

### CAMAU WELTAG

Mae'r broses WelTAG yn cwmpasu cylch bywyd cyfan ymyrraeth arfaethedig yn y system drafnidiaeth, o adeg asesu'r broblem, ystyried atebion posibl a nodweddion y cynllun, hyd at weithredu a gwerthuso'r prosiect.

Mae pum cam i WelTAG; mae'r tri cham cyntaf yn arwain at ddewis yr ymyrraeth arfaethedig. Mae'r ddau gam olaf yn cwmpasu cyfnod gweithredu'r prosiect a'r cyfnod dilynol, gan gofnodi'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a'r hyn a gyflawnir. Pum cam proses WelTAG yw:

**Cam Un: Achos Amlinellol Strategol**

Tasg: Deall y broblem a datblygu rhestr hir o atebion posibl

Cam: Dewis rhestr fer o opsiynau

**Cam Dau: Achos Busnes Amlinellol**

Tasg: Edrych ymhellach ar restr fer o opsiynau

Cam: Dewis yr opsiwn a ffefrir

**Cam Tri: Achos Busnes Llawn**

Tasg: Arfarniad manwl a thrylwyr o'r opsiwn a ffefrir

Cam: Parhau â'r opsiwn a ffefrir neu edrych eto ar ddewis arall

**Cam Pedwar: Gweithredu**

Tasg: Darparu'r opsiwn a ffefrir

Cam: Monitro effaith

**Cam Pump: Ar ôl gweithredu**

Tasg: Parhau i weithredu yr opsiwn a ffefrir

Cam: Arfarnu yr ymyrraeth a chofnodi y gwersi a ddysgwyd

### Y GRŴP ARFARNU

Mae'r allbynnau a gynhyrchir ar ddiwedd pob cam yn ddogfen fer, a elwir yn **Adroddiad ar Gamau WelTAG**. Bydd Grŵp Adolygu yn ystyried yr Adroddiad ar y Cam ac yn adolygu ei gynnwys ac yn penderfynu ar y gweithredu sydd i'w wneud. Dylai'r Adroddiad gael ei ysgrifennu mewn iaith nad yw'n dechnegol. Dylai gyflwyno

yn eglur yr wybodaeth y mae ar y Grŵp Adolygu ei hangen i asesu pob un o'r opsiynau a gyflwynir, gwneud y penderfyniadau angenrheidiol a chymryd y camau y mae ei hangen ar ddiwedd y cam hwnnw o WelTAG.

Dylid penodi Grŵp Adolygu ar gyfer pob arfarniad WelTAG. Dylid pennu maint a chyfansoddiad y Grŵp Adolygu yn yr Adroddiad Cam Cyntaf. Mewn llawer o sefydliadau bydd yr un Grŵp Adolygu yn ystyried yr holl arfarniadau WelTAG a gynhyrchir. Dros amser bydd y Grŵp hwn yn dysgu o brofiad arfarniadau blaenorol. Dylid cynnal Grŵp Adolygu ar gyfer cynlluniau bach hyd yn oed gan fod hyn yn rhoi cyfle i gynnal adolygiad cymheiriaid o'r arfarniad.

Gan ddibynnu ar gwmpas yr ymyrraeth sy'n cael ei ystyried, argymhellir penodi adolygwr annibynnol ar gyfer y prosiect. Dylid penodi rhywun sydd â phrofiad neu wybodaeth am y problemau ond sydd heb fod yn rhan o dîm y rhaglen. Eu swyddogaeth yw darparu arfarniad di-duedd ac annibynnol o'r dystiolaeth a datblygu'r achos.

Ochr yn ochr â chynhyrchu Adroddiadau ar Gamau WelTAG y mae'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y dadansoddiad mwy manwl sydd y tu ôl i'r deunydd a gyflwynir yn yr Adroddiadau ar y Camau.

Disgrifir diben a chynnwys pob adroddiad ar Gamau WelTAG a'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau yn y bennod hon.

## ADRODDIAD AR YR ASESIAD O'R EFFEITHIAU

Cyflwynir y dystiolaeth, data a dadansoddiad manwl sy'n sail i'r datganiadau a wnaed mewn adroddiad WelTAG mewn dogfen ar wahân a elwir yn Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau. Mae hon yn ddogfen fyw sy'n datblygu yn ystod pum cam WelTAG. Mae'n cynnwys dadansoddiad sy'n sail i bob cam ac mae wedi ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa dechnegol. Mae'n cyflwyno tystiolaeth fanwl ar yr effeithiau a ddisgwylir o bob opsiwn sydd dan ystyriaeth ac mae'n sail i'r crynodebau o'r effeithiau hynny a gyflwynir yn y ddogfen ar gamau'r WelTAG.

Pan fo angen rhagor o dystiolaeth mewn camau WelTAG yn y dyfodol, mae Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau yn nodi manylion y fethodoleg a gynigir ar gyfer casglu'r dystiolaeth hon ac yna, pan fydd wedi ei chasglu, yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith hwnnw. Dylid cyflwyno'r argymhellion ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar gam nesaf y broses arfarnu yn yr adroddiad ar y Cam.

Rhaid sefydlu storfa ddata i gadw copi o unrhyw ddata a modelau a ddefnyddir ar bob cam yn y gwaith arfarnu. Dylid catalogio'r storfa ddata hon ar ddiwedd pob cam o'r WelTAG. Pan ofynnir am gyllid neu gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, dylid rhoi copi i Lywodraeth Cymru. Bydd y storfa ddata hon yn sicrhau bod unrhyw ddata neu fodelau, fel taenlenni, modelau trafnidiaeth neu'r amgylchedd, sydd wedi eu

defnyddio i ddarparu tystiolaeth wrth nodi'r broblem neu arfarnu'r opsiynau ar gael ar gyfer y gwaith gwerthuso a wneir yng Nghamau diweddarach WelTAG.

## CYSYLLTIAD Â'R PUM ACHOS

Mae'n rhaid cyflwyno cynnwys pob un o'r Adroddiadau ar y Camau gan ddefnyddio strwythur y Model Pum Achos a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi.

Disgrifir y Pum Achos, fel y'i cymhwysir i arfarnu trafnidiaeth, yn fwy manwl yn y bennod nesaf o'r canllawiau hyn. I grynhoi, y Pum Achos yw:

- yr achos **strategol**: yr achos dros newid, cyd-fynd â pholisïau ac amcanion eraill
- yr achos **trafnidiaeth**: effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y newid gan gynnwys asesiad gwerth am arian
- yr achos **cyflawni**: a yw'n bosibl cyflawni'r cynllun?
- yr achos **ariannol**: a yw'r gwariant arfaethedig yn fforddiadwy?
- yr achos **masnachol**: sut gellir caffael y cynllun, a yw'n ddeniadol i'r sector preifat, a yw'n hyfyw yn fasnachol?

Bydd y manylion sydd ar gael ar gyfer pob un o'r Pum Achos yn amrywio rhwng yr achosion yng nghamau cynnar y broses WelTAG. Ond erbyn diwedd Cam Tri dylai pob un o'r Pum Achos fod yn gyflawn.

Yn ystod Cam Un bydd yr achos strategol wedi ei ddatblygu bron yn gyfan gwbl gan mai hyn sy'n nodi'r angen am newid. Bydd yr achos trafnidiaeth yn darparu asesiad cychwynnol o'r effeithiau a ddisgwylir o bob un o'r opsiynau ar y rhestr hir ar gyfer mynd i'r afael â'r mater dan sylw. Ar y Cam hwn bydd yr asesiad yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd. Bydd yr achosion cyflawni, masnachol ac ariannol yn rhai rhagarweiniol, ond rhaid iddynt ystyried yr holl faterion allweddol a fyddai'n effeithio ar y dewis o opsiynau i'w hymchwilio ymhellach.

Erbyn diwedd Cam Dau mae'n rhaid i'r achosion strategol a thrafnidiaeth fod bron iawn â'u cwblhau a rhaid darparu rhagor o wybodaeth ar yr achosion cyflawni, masnachol ac ariannol ar gyfer yr opsiynau ar y rhestr fer.

Erbyn diwedd Cam Tri, sef yr achos busnes llawn ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, rhaid i bob un o'r Pum Achos fod wedi ei gwblhau.

Ar gyfer cam Pedwar a Phump, dylai'r gwaith arfarnu gymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r effeithiau a ragwelwyd a chyflwyno adroddiad ar yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn y meysydd sy'n cael eu cwmpasu gan bob un o'r

Pum Achos. Bydd monitro canlyniadau yn ystod gweithrediad y cynllun yng Ngham Pedwar yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud, os oes angen, i wireddu buddion yr ymyrraeth a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol nas rhagwelwyd. Mae'r gwerthusiad tymor hirach a ddarperir yng Ngham Pump yn cwmpasu'r broses o gyflawni'r cynllun a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae hyn yn gwneud WelTAG yn broses ddysgu a bydd arfarniadau WelTAG yn y dyfodol yn elwa o ganlyniad i rannu'r profiadau a gafwyd mewn mannau eraill.

## CAM UN: ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL

### DIBEN Y CAM ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL

Diben yr Achos Amlinellol Strategol yw deall y mater sy'n achosi pryder, archwilio ei gyd-destun a chyflwyno rhestr eang o atebion posibl. Bydd angen gwneud hyn yn eglur ac yn drylwyr fel y gall y grŵp adolygu benderfynu a oes unrhyw atebion posibl yn y sector trafnidiaeth sy'n werth eu hystyried a dewis rhestr fer o opsiynau i'w hystyried yn fanylach.

Dylai cynhyrchu adroddiad ar Gam Un WelTAG bob tro gan ei fod yn gyfle i ddeall y materion sy'n achosi pryder, ac i ymchwilio i ystod eang o atebion posibl. Dylai'r adroddiad Cam Un ddilyn egwyddor arfarniad cymesur; nid oes angen iddo fod yn ymarferiad hir ond mae'n hanfodol adolygu'r broblem dan sylw a rhannu'r ddealltwriaeth a gafwyd ymhlith rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

Mae'n gyfle i ystyried a oes atebion nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth neu atebion a fyddai'n gweithredu ar draws sectorau. Os caiff y rhain eu nodi dylid cynnwys pobl â sgiliau a phrofiad yn y meysydd hyn yn y broses WelTAG.

### CYNNWYS YR ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL

Disgrifiad eglur yn seiliedig ar dystiolaeth o'r mater y mae angen mynd i'r afael ag ef a'r problemau sy'n ymddangos nawr neu a fydd yn ymddangos yn y dyfodol os na chymerir camau.

Mae dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem yn ofynnol, gan y bydd hyn yn helpu i ddatblygu atebion posibl. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn seiliedig ar naratif, â thystiolaeth i'w ategu, a dylai gyflwyno'r dulliau y mae'r ffactorau a nodwyd yn cyfrannu at y mater dan sylw. Dylid archwilio'r cysylltiadau rhwng y sector trafnidiaeth a sectorau eraill hefyd.

Dylid nodi'r amcanion ar gyfer unrhyw ateb arfaethedig yn eglur. Y rhain yw'r amcanion y bydd yr atebion arfaethedig yn cael eu barnu o'u cymharu â nhw. Bydd yr amcanion hyn yn dod o:

- amcanion cenedlaethol cyffredinol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- amcanion cyffredinol ar gyfer y system drafnidiaeth fel y nodir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru
- datblygu amcanion â mwy o bwyslais iddynt ar gyfer y mater penodol dan sylw.

Rhestr hir o opsiynau a allai fynd i'r afael â'r broblem a nodwyd.

Ar gyfer pob opsiwn:

- disgrifiad o'r opsiwn
- esboniad o ddulliau'r opsiwn o fynd i'r afael â'r broblem, rhwystro'r broblem rhag mynd yn waeth neu o ddigwydd yn y lle cyntaf
- effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd tebygol pob opsiwn, gyda digon o fanylion i allu dewis rhestr fer o opsiynau i'w hystyried ymhellach (yr achos trafnidiaeth).
- Materion allweddol a allai chwalu'r opsiwn hwnnw dan y penawdau achos cyflawni, ariannol a masnachol

Argymhellion ar gyfer yr opsiynau y dylid eu cymryd ymlaen i arfarniad Cam Dau WelTAG yn seiliedig ar:

- eu gallu i ddatrys y broblem
- eu gallu i fodloni'r amcanion a bennwyd
- eu heffeithiau byrdymor a hirdymor
- y gallu i'w cyflawni
- pa mor gadarn y maent mewn amgylchiadau ansicr

Dylid darparu esboniad eglur o'r rhesymau dros yr argymhellion hyn. Bydd hyn yn cynorthwyo'r grŵp adolygu i benderfynu ar y rhestr fer o opsiynau.

Dylid cyflwyno'r argymhellion ar y dulliau i'w defnyddio i wella'r sail dystiolaeth yn y gwaith Cam Dau yn yr achos cyflawni. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd lle mae angen rhagor o dystiolaeth a'r dulliau arfaethedig o sicrhau'r dystiolaeth hon. Gallai hyn gynnwys rhagor o ddadansoddi data presennol, tystiolaeth o astudiaethau achos mewn mannau eraill, casglu data sylfaenol a defnyddio modelau cyfrifiadurol.

Gan ddilyn egwyddor arfarnu gymesur, nid oes angen i'r arfarniad gynnwys llawer iawn o fanylion ar y cam hwn. Ond dylai nodi'r effeithiau a'r materion allweddol a fyddai'n effeithio ar y dewis o opsiynau i'w hystyried ymhellach yng Ngham Dau.

Bydd manylion llawn y gwaith dadansoddi yn cael eu cyflwyno yn yr Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau. Dylid cyflwyno digon o fanylion yma er mwyn i adolygydd annibynnol gadarnhau'r hawliau a wneir yn yr Adroddiad ar y Cam ar y broblem gyfredol, y ffactorau sy'n cyfrannu ati a lefel a graddfa'r effeithiau a ddisgwylir o bob opsiwn. Dylai'r Adroddiad ar y Cam ddefnyddio adnoddau delweddu fel graffiau a thablau i gynorthwyo darllenwyr yr Adroddiad i ddeall buddion ac effeithiau pob opsiwn a'r gwahaniaethau allweddol rhyngddynt.

Dylid cyflwyno arwyddocâd a graddfa effeithiau pob opsiwn gan ddefnyddio graddfa saith pwynt, fel a ganlyn:

- Buddion mawr (+++);
- Buddion canolradd (++);
- Ychydig o fuddion (+);
- Niwtral (0);
- Ychydig o anfanteision (-);
- Anfanteision canolradd (- -);
- Anfanteision mawr (- - -).

Pan na chafodd effaith ei ddadansoddi hyd yn hyn, dylid nodi hyn yn eglur gan ddefnyddio NYA (heb ei ddadansoddi hyd yn hyn). Mae'n rhaid gofalu bod yr holl effeithiau a fyddai'n dylanwadu ar y penderfyniad ynglŷn â pha opsiynau fydd yn mynd ymlaen i gam nesaf WelTAG yn cael eu nodi.

Bydd lliwio'r celloedd yn y tabl, gan ddefnyddio gwyrdd am effeithiau buddiol a choch am effeithiau andwyol, ac amrywio'r lliw o dywyll i olau i nodi graddfa'r effaith, yn help i gyflwyno'r data hyn yn weledol.

## CAMAU AR DDIWEDD CAM ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL

Penderfynwch a oes unrhyw opsiynau trafnidiaeth a allai fynd i'r afael â'r broblem a nodwyd.

Dewiswch restr fer o opsiynau i'w cyflwyno yng Ngham Dau, (yr Achos Busnes Amlinellol), yn seiliedig ar eu gallu i ddatrys y broblem, pa mor addas ydynt ar gyfer yr amcanion, eu heffeithiau, y gallu i'w cyflawni a pha mor gadarn ydynt mewn amgylchiadau ansicr.

Dylech gytuno ar yr effeithiau sydd i'w hystyried yn ystod Cam Dau gan gynnwys y dulliau i'w defnyddio i ddarparu tystiolaeth ychwanegol pan fo angen.

Nodwch unrhyw ofynion deddfwriaethol sy’n berthnasol i’r cam Achos Busnes Amlinellol ac y mae angen eu bodloni yn ystod y cam hwn.

Cofnodwch benderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Un.

## CAM 2: ACHOS BUSNES AMLINELLOL

### DIBEN Y CAM ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Diben yr achos busnes amlinellol yw archwilio'n fanylach y rhestr fer o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem dan sylw.

Cam Dau WelTAG yw'r adeg y dylid archwilio'n fanylach a mynegi'n eglur y dulliau y bydd yr opswn arfaethedig yn eu defnyddio i arwain at y canlyniadau a ddymunir. Mae hyn yn galluogi'r tîm arfarnu i ystyried sut y bydd yr ateb arfaethedig yn arwain at y canlyniad dymunol a defnyddio'r ddealltwriaeth hon i fireinio cynllun yr opsiwn a nodi unrhyw ddibyniaethau a chyfyngiadau allweddol.

Mae adroddiad Cam Dau yn nodi, ar gyfer y Grŵp Adolygu, sut bydd pob un o'r opsiynau arfaethedig yn bodloni'r amcanion a nodwyd, yr effeithiau a ddisgwylir o bob opsiwn a'r modd y bydd cyd-destun y cynllun yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r amcanion hyn. Dylai hefyd ystyried pa mor gadarn yw'r opsiwn arfaethedig i fodloni ei amcanion gan ddefnyddio profion sensitifrwydd a dadansoddi senario. Dylid cyflwyno risgiau a dibyniaethau allweddol.

Mae'r cam Achos Busnes Amlinellol yn darparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r Grŵp Adolygu ddewis opsiwn a ffefrir i fynd ymlaen i Gam Tri WelTAG. Mae angen i adroddiad Cam Dau nodi'n eglur y materion a fydd yn berthnasol i'r broses o ddewis yr opsiwn a ffefrir. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ar yr effeithiau sylweddol ar grwpiau penodol o bobl neu ardaloedd, dibyniaethau a risgiau allweddol a allai effeithio ar y gallu i gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir.

### CYNNWYS YR ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Mae'r achos strategol yn ailddatgan y broblem y mae angen mynd i'r afael â hi. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn adolygu unrhyw newidiadau perthnasol a allai fod wedi digwydd yn y system drafnidiaeth a'i chyd-destun ehangach ers cwblhau Cam Un, ac mae'n diweddaru'r Achos Strategol.

Mae'n disgrifio pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer a sut byddai pob un yn bodloni'r amcanion a nodir yng Ngham Un. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r dulliau sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r opsiwn hyd at brofi'r effeithiau a ddisgwylir.

Cyflwynir asesiad pum achos ar gyfer pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer, gyda chyflwyniad ar wahân ar gyfer achos trafnidiaeth, cyflawni, ariannol a masnachol i bob opsiwn. Dylai'r achos trafnidiaeth grynhoi effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd allweddol pob ateb sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wneir ar ddiwedd Cam Dau. Mae'n rhaid darparu'r dystiolaeth ategol a manylion y

dulliau arfarnu a ddefnyddir i archwilio’r effeithiau hyn yn Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o’r Effeithiau.

## CAMAU AR DDIWEDD Y CAM ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Penderfynwch a oes unrhyw opsiynau trafnidiaeth a allai fynd i’r afael â’r broblem (problemau) a nodwyd ac y gellir eu cyflawni

Dewiswch yr opsiwn a ffefrir i fynd ymlaen i’r cam Achos Busnes Llawn

Dylech gytuno ar y dulliau fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth ychwanegol pan fo angen ar gyfer asesiad Cam Tri (Achos Busnes Llawn).

Nodwch unrhyw ofynion deddfwriaethol y mae angen eu bodloni yn ystod asesiad Cam Tri (Achos Busnes Llawn).

Cofnodwch benderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Dau, a’r sail ar gyfer y penderfyniadau hyn.

## CAM 3: ACHOS BUSNES LLAWN

### DIBEN Y CAM ACHOS BUSNES LLAWN

Diben yr Achos Busnes Llawn yw cynnal asesiad llawn a manwl o'r opsiwn a ffefrir i hysbysu penderfyniad ynghylch a dylid bwrw ymlaen i'w weithredu ai peidio.

Dylai'r gwaith cynllunio ac arfarnu manwl gael ei ddefnyddio i fireinio'r cynllun ac i hysbysu unrhyw gamau ategol angenrheidiol er mwyn gwireddu buddion y cynnig yn llawn ac i helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol.

Bydd cynnal Achos Busnes Llawn yn darparu llawer o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer ceisiadau i sefydliadau ariannu ac unrhyw weithdrefnau arfarnu ar gyfer dull penodol o drafnidiaeth.

Bydd gwybodaeth am fanylion llawn y cynllun, manylion yr effeithiau a ddisgwylir a'r naratif o ran sut bydd yr ymyrraeth arfaethedig yn bodloni'r amcanion a'u heffeithiau tebygol, yn gymorth wrth gynllunio'r gwaith monitro a gwerthuso a fydd yn cael ei wneud yng Ngham Pedwar a Phump WelTAG.

Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso gael ei ysgrifennu yn ystod Cam Tri a dylid ei gyflwyno yn yr achos cyflawni. Dylai nodi'r gofyniad i gasglu unrhyw ddata 'ymlaen llaw' y bydd angen ei wneud cyn gweithredu'r prosiect. Bydd hefyd yn penderfynu ar y gyllideb sy'n ofynnol i dalu'r gost o gynnal y gwaith monitro a gwerthuso. Dylai hwn gael ei gynnwys yng nghostau'r ymyrraeth a dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod y cronfeydd hyn ar gael pan fo angen ar gyfer y gwerthusiad byrdymor a hirdymor ar ôl agor.

### CYNNWYS YR ACHOS BUSNES LLAWN

Dylid cyflwyno Achos Busnes Llawn ar gyfer yr opsiwn a ffefrir. Dylid cwblhau pob dimensiwn o'r Pum Achos, gyda lefel o fanylder sy'n gymesur â graddfa a/neu bwysigrwydd yr effeithiau a'r risgiau cysylltiedig. Mae'n rhaid cynnwys materion sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r opsiynau, gwireddu'r buddion a ddisgwylir a lliniaru effeithiau andwyol.

### CAMAU AR DDIWEDD CAM ACHOS BUSNES LLAWN

Penderfynwch a oes opsiwn trafnidiaeth a all fynd i'r afael â'r broblem a nodwyd ac y gellir ei gyflawni o fewn cyfyngiadau technegol ac ariannol.

Dewiswch yr opsiwn a ffefrir ar gyfer ei gaffael. Fel arall, dylech benderfynu peidio â pharhau ag unrhyw opsiwn, neu dewiswch opsiwn arall a nodwyd yng Ngham Dau i'w gymryd ymlaen i Asesiad Cam Tri.

Dylech gytuno ar y cynllun monitro a gwerthuso a rhowch ddisgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir i ddarparu'r dystiolaeth ofynnol yn ystod y gwaith gweithredu ac yn dilyn hynny. Dylech gaffael unrhyw astudiaethau 'ymlaen llaw' sy'n ofynnol. Gwnewch drefniadau ar gyfer ariannu'r gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol.

Cofnodwch benderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Tri a'r sail ar gyfer y penderfyniadau hyn.

## ACHOS BUSNES LLAWN A THERFYNOL

Mewn llawer o achosion bydd yr achos busnes terfynol wedi ei baratoi gan ddefnyddio cost amcangyfrifiedig. Ar ôl yr ymarfer caffael, bydd pris terfynol a chyfres o gamau cyflawnadwy diffiniedig ar gael. Dylid diweddaru'r achos busnes llawn i adlewyrchu'r pris prosiect terfynol y cytunwyd arno, y cwmpas a'r hyn y gellir ei gyflawni. Gelwir y ddogfen hon yn 'achos busnes llawn a therfynol' a dylid ei defnyddio yn y gwaith gwerthuso a wneir yng Nghamau 4 a 5.

## CAM 4: GWEITHREDIAD

### DIBEN

Diben gwaith Cam Pedwar yw cofnodi'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, y cyd-destun ehangach ar yr adeg y cyflawnwyd y cynllun, a chofnodi'r effeithiau sy'n digwydd yn ystod y cyfnod gweithredu.

Mae hyn yn rhoi rhybudd ar unwaith os oes unrhyw effeithiau andwyol nas bwriadwyd yn ystod y cyfnod gweithredu a gall gynorthwyo wrth wireddu unrhyw fuddion. Mae hefyd yn gweithredu fel cofnod o'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd sy'n ofynnol ar gyfer gwaith gwerthuso Cam Pump.

Nod Camau Pedwar a Phump WelTAG yw cofnodi'r hyn sy'n digwydd er mwyn gallu dysgu gwersi. Gall arwain at newidiadau i'r cynllun presennol a bydd yn ffurfio tystiolaeth werthfawr i'w defnyddio mewn arfarniadau WelTAG yn y dyfodol.

Dylid cadw cofnodion o'r effeithiau yn ystod y cyfnod gweithredu gan y bydd y rhain yn ofynnol er mwyn gwerthuso'r broses weithredu a'r canlyniadau. Dylid cofnodi digwyddiadau allanol a allai effeithio ar y gwerthusiad wrth iddynt godi, fel tywydd garw, newidiadau mewn deddfwriaeth, canlyniadau'r risgiau allweddol a nodwyd yn yr Achos Busnes Llawn ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynllun yn ystod y cyfnod gweithredu.

### CYNNWYS

Dylai'r gwerthusiadau yng Nghamau Pedwar a Phump WelTAG ystyried y meysydd sy'n cael eu cwmpasu ym mhob un o'r pum achos yn Achos Busnes Llawn Cam Tri. Golyga hyn y bydd yn ystyried y broses o gyflawni'r cynllun ac effeithiau'r cynllun ei hun.

Dylai strwythur adroddiad Cam Pedwar ddilyn y Pum Achos. Dylai fod pennod gryno ar ddechrau'r adroddiad sy'n dangos y gwerthusiad gan ddefnyddio map rhesymeg. Dylai fod gan fap rhesymeg o leiaf pedair elfen fel y dangosir yn yr enghraifft hon ar gyfer lôn bysiau newydd:

> Cyd-destun: nifer y teithwyr bws, beicwyr a thripiau mewn car ar hyd y coridor cyn gweithredu'r cynllun; newidiadau i brisiau tocynnau bws/trên, prisiau tanwydd a thalu am barcio ceir (yng nghanol trefi).
>
> Mewnbynnau: cost darparu lonydd bysiau e.e. llafur ac offer.
>
> Allbynnau: lleoliad y lôn bysiau, hyd y lôn bysiau.
>
> Canlyniadau: newid gwirioneddol i amserau teithiau bws, unrhyw newid i amserau teithiau car, newid yn nifer a chanran y teithiau a wneir mewn bws, ar feic ac mewn car ar hyd y coridor.

Dylid cyflwyno crynodeb o unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a fu yn ystod y broses gweithredu ac unrhyw newidiadau yn y cyd-destun, fel newidiadau i brisiau tanwydd, tywydd garw, a fydd yn gymorth i werthuso'r broses weithredu a'r cynllun ei hun yn adroddiad Cam Pump.

Bydd yr adroddiad yna'n dilyn pob un o'r pum achos ac yn cyflwyno cymhariaeth o'r digwyddiadau alldro â'r rhai hynny a ragwelwyd yn adroddiad Cam Tri. Dylai'r adroddiad ystyried hefyd effaith unrhyw newidiadau rhwng y cyd-destun a ragwelwyd ac effeithiau'r cynllun a'r cyd-destun a'r effeithiau gwirioneddol pan weithredwyd y cynllun.

## CAMAU AR DDIWEDD Y CAM

Dylid cwblhau'r astudiaethau 'ymlaen llaw' mewn da bryd er mwyn cofnodi'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn gweithredu'r cynllun. Oni bai bod amser sylweddol wedi mynd heibio ers ysgrifennu'r Achos Busnes Llawn dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i chasglu eisoes i'w defnyddio yn yr Achos Busnes Llawn yng Ngham 3 a bydd ar gael yn yr Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau a'r biwro data sy'n cyd-fynd ag ef.

Os yw'r effeithiau a arsylwyd yn wahanol i'r effeithiau a ragwelwyd yna dylid llunio adroddiad interim Cam Pedwar i gofnodi hyn. Hefyd, dylid cynnig ffyrdd o elwa i'r eithaf ar unrhyw fuddion nas bwriadwyd neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol nas bwriadwyd. Bydd adroddiad terfynol Cam Pedwar yn cofnodi gwerthusiad ar unwaith ar ôl agor, gan gofnodi'r allbynnau gwirioneddol a ddarparwyd a'r effeithiau cychwynnol. Dylai hyn gynnwys chwe mis cyntaf gweithrediad y cynllun a dylid ei gwblhau o fewn 12 mis i agor y cynllun neu gwblhau'r ymyrraeth.

## CAM 5: AR ÔL GWEITHREDU

### DIBEN

Mae monitro a gwerthuso'r ymyrraeth yn werthfawr ar gyfer:

- atebolrwydd wrth ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus
- dysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio

Prif ddiben Cam Pump yw cofnodi'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, cymharu hyn â'r effeithiau a ddisgwyliwyd, dysgu gwersi a rhannu'r hyn a ddysgwyd â'r bobl hynny sy'n rhan o waith datblygu ymyraethau yn y system drafnidiaeth yn y dyfodol.

Os bydd problemau annisgwyl yn codi, gellir defnyddio gwaith Cam Pump i hysbysu mesurau i liniaru effeithiau andwyol nas rhagwelwyd neu i ddatblygu buddion nas rhagwelwyd.

### CYNNWYS

Bydd adroddiad Cam Pump WelTAG yn gofnod parhaol o'r hyn a gyflawnwyd ac yn adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd. Mae'n cwmpasu'r broses o gyflawni'r cynllun ac effeithiau'r cynllun ei hun.

Dylai fod pennod gryno ar ddechrau'r adroddiad sy'n nodi canfyddiadau allweddol y gwaith gwerthuso a'r gwersi a ddysgwyd. Dylid crynhoi gwerthusiad tymor hirach y prosiect gan ddefnyddio map rhesymeg.

Dylid cyflwyno crynodeb eglur o unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a fu yn ystod ac ar ôl gweithredu'r cynllun, unrhyw newidiadau yn y cyd-destun, fel newidiadau i brisiau tanwydd, tywydd garw, a fydd yn gymorth i werthuso'r broses o weithredu a dylid cyflwyno'r cynllun yn glir.  Dylid egluro sut gwnaeth y rhain effeithio ar y cynllun, sut y gwireddwyd y buddion a ragwelwyd, ac unrhyw effeithiau andwyol.

Bydd yr adroddiad yna'n dilyn pob un o'r pum achos ac yn cyflwyno cymhariaeth fanylach o'r digwyddiadau alldro â'r rhai hynny a ddisgwyliwyd yn adroddiad Achos Busnes Llawn Cam Tri, ar gyfer pob un o'r pum achos.

### CAMAU

Cynhyrchu cofnod o'r hyn a gyflawnwyd, gwerthusiad o'r broses o gyflawni'r opsiwn, cofnod o'r effeithiau gwirioneddol o'u cymharu â'r effeithiau a ddisgwyliwyd ac asesiad o'r graddau y gwnaeth fodloni'r amcanion gwreiddiol.

Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd i'w ddefnyddio gan eraill mewn arfarniadau WelTAG yn y dyfodol, gan felly gwblhau'r cylch RAAMGA a nodwyd yn y cyflwyniad i WelTAG.

## Crynodeb o’r broses WelTAG

### *CAM 1: ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL*

Nodi problem y mae angen mynd i’r afael â hi

Sefydlu amcanion

Datblygu rhestr hir o atebion posibl, gan gynnwys ymyraethau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth

Asesu’r opsiynau ar y rhestr hir o’u cymharu â’r amcanion

CAM GWEITHREDU:

Dewis rhestr fer o opsiynau i fynd â hwy ymlaen i’r Cam nesaf
Cytuno ar fethodoleg ar gyfer gwaith asesu’r effeithiau yn y Cam nesaf

### CAM 2: ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Nodi effeithiolrwydd pob opsiwn ar y rhestr fer o ran bodloni amcanion y cynllun

Nodi effeithiau tebygol pob opsiwn

CAM GWEITHREDU:

Dewis opsiwn a ffefrir i fynd ag ef ymlaen i’r Cam nesaf
Cytuno ar fethodoleg ar gyfer unrhyw waith asesu effeithiau ychwanegol sy’n ofynnol yn y Cam nesaf

### CAM 3: ACHOS BUSNES LLAWN

Cwblhau pob un o’r pum achos ar gyfer yr opsiwn a ffefrir

CAM GWEITHREDU:

Penderfynu gweithredu neu beidio gweithredu’r opsiwn a ffefrir / mynd ag opsiwn arall i achos busnes llawn

### CAM 4: GWEITHREDU

Cyflawni’r opsiwn a ffefrir

Cofnodi manylion cyd-destun y gwaith cyflawni

Monitro’r broses gyflawni

Monitro’r effeithiau yn ystod y gwaith cyflawni

CAM GWEITHREDU:

Adroddiad monitro a gwerthuso byrdymor

**CAM 5: AR ÔL GWEITHREDU**

Cofnodi manylion cyd-destun y prosiect a’r gwaith cyflawni

Monitro effeithiau’r ateb a fabwysiadwyd

Gwerthuso’r broses o gyflawni’r ateb a fabwysiadwyd

Gwerthuso’r canlyniadau gwirioneddol

CAM GWEITHREDU:

Defnyddio’r gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu ac arfarnu cynlluniau’r dyfodol

# PUM ACHOS WELTAG

## CYFLWYNIAD

Defnyddir y Pum Achos gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn achosion busnes ar gyfer prosiectau y mae angen cyllid o'r sector cyhoeddus arnynt. Mae WelTAG yn defnyddio'r model Pum Achos i arfarnu ymyraethau sy'n effeithio ar y system drafnidiaeth. Fe'i lluniwyd ar gyfer arfarnu cynlluniau trafnidiaeth y mae angen cyllid Llywodraeth Cymru arnynt. Ond mae'r fframwaith ystyried y mae'n ei ddarparu yn werthfawr wrth arfarnu cynlluniau a pholisïau trafnidiaeth eraill.

## YR ACHOS STRATEGOL

Mae'r achos strategol yn mynd i'r afael â'r **angen am newid**. Mae'n cyflwyno disgrifiad yn seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol, yn disgrifio'r sefyllfa debygol yn y dyfodol os na fydd camau gweithredu'n cael eu cymryd ac yn cyflwyno'r rhesymau dros wneud ymyrraeth yn ofynnol. Mae'n cynnwys manylion y cyd-destun ehangach ar gyfer yr ymyrraeth arfaethedig, gan gynnwys tueddiadau allweddol mewn meysydd nad ydynt yn feysydd trafnidiaeth megis nifer y swyddi sydd ar gael a'r amgylchedd.

Mae'r achos strategol yn nodi **amcanion** cyffredinol Llywodraeth Cymru a'i hamcanion penodol ar gyfer y system drafnidiaeth. Mae'n sefydlu amcanion cynllunio penodol ar gyfer y mater penodol dan sylw yn yr arfarniad WelTAG.

Y meini prawf ar gyfer dewis opsiynau ychwanegol yn ystod y broses WelTAG yw:

- pa mor dda y mae opsiwn yn cyflawni'r amcanion
- effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd pob opsiwn o'i gymharu â'r gost ariannol o gyflawni'r opsiwn hwnnw

Mae angen i'r achos strategol nodi, yn gryno, y naratif o ran sut y bwriedir i'r atebion arfaethedig newid y sefyllfa. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir i weithredu'r ateb a fydd yn arwain at y newid dymunol.

Mae'r achos strategol yn disgrifio'r cyfyngiadau allweddol a fydd yn effeithio ar gynllun a gweithrediad yr atebion i'r her a nodwyd. Mae angen esbonio hefyd unrhyw ddibyniaethau allweddol, gyda mesurau newid trafnidiaeth eraill mewn sectorau a meysydd eraill a allai effeithio ar lwyddiant yr ateb fel arall o ran cyflawni'r canlyniad a ddisgwylir. Dylid nodi unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau penodol o bobl neu leoliadau, yn ogystal ag unrhyw risgiau mawr a allai effeithio ar y gallu i gyflawni'r cynllun, gwireddu'r buddion a ddisgwylir neu liniaru'r effeithiau andwyol.

**Rhestr wirio achos strategol**

**Yr achos dros newid:**

Y sefyllfa bresennol gan gynnwys y cyd-destun ehangach

Y sefyllfa debygol os na fydd camau'n cael eu cymryd

Y ffactorau allweddol y tu ôl i'r sefyllfa bresennol

**Amcanion yr ymyrraeth:**

Amcanion cyffredinol cenedlaethol yn seiliedig ar bolisïau

Amcanion trafnidiaeth cenedlaethol yn seiliedig ar Strategaeth Trafnidiaeth Cymru

Amcanion lleol ble yn briodol

Amcanion penodol ar gyfer y broblem hon

**Rhestr hir o opsiynau:** (yng Ngham 1)

Sut lluniwyd y rhestr hir

Rhestr o opsiynau, yn dangos tystiolaeth o ystyried pob math o deithio ac atebion nad ydynt yn ymwneud â'r sector trafnidiaeth

Ar gyfer pob opsiwn:

Disgrifiad

Sut mae'n mynd i'r afael â'r broblem

I ba raddau y mae'n bodloni'r amcanion

Materion eraill sy'n berthnasol (risgiau allweddol, effeithiau andwyol, cyfyngiadau a dibyniaethau)

**Rhestr fer o opsiynau:** (o Gam 2 ymlaen)

Sut lluniwyd y rhestr fer

Ar gyfer pob opsiwn:

Disgrifiad

Sut mae'n mynd i'r afael â'r broblem

I ba raddau y mae'n bodloni'r amcanion

Materion eraill sy'n berthnasol (risgiau allweddol, effeithiau andwyol, cyfyngiadau a dibyniaethau)

## YR ACHOS TRAFNIDIAETH

Nod yr achos trafnidiaeth yw cyflwyno'r naratif ar gyfer pob opsiwn yn fanylach o ran sut bydd pob ateb arfaethedig yn bodloni'r angen a nodwyd yn yr achos strategol a'r amcanion a bennwyd. Mae hefyd yn nodi unrhyw elfennau tybiedig o gyd-destun ehangach y cynllun sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r achos strategol wedi nodi cyd-destun cyffredinol y system drafnidiaeth a'r mater sy'n cael ei ystyried. Mae'r achos trafnidiaeth yn cyflwyno effeithiau pob opsiwn dan y penawdau effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Mae'r achos trafnidiaeth yn asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o

- beth fydd yr effeithiau,
- graddfa'r effeithiau hynny,
- ble byddant yn codi; a
- phwy / beth fydd yn eu profi.

Yng Ngham Un WelTAG bydd llawer o'r dystiolaeth a ddefnyddir yn dod o ffynonellau data presennol a gwerthusiadau o brosiectau blaenorol perthnasol mewn mannau eraill. Gall fod angen casglu ychydig o ddata sylfaenol fel cyfrif nifer y cerddwyr, beicwyr neu draffig, ac arolygon o'r amodau ar y rhwydwaith trafnidiaeth megis hyd tagfeydd a lefelau gorlenwi. Pan fo prosiect wedi ei gynllunio i ymdrin â phroblem sy'n llai gweladwy, gall fod angen cynnal arolygon ansoddol i ddatgelu graddfa'r broblem ac awgrymu atebion posibl. Mae gwefan WelTAG yn darparu dolenni i lawer o ffynonellau data a allai fod o ddefnydd mewn arfarniad WelTAG.

Yng Nghamau Dau a Thri WelTAG gall fod angen casglu rhagor o dystiolaeth ar gyfer yr asesiad manylach o'r effeithiau. Gall hyn ddod o arolygon meintiol neu ansoddol ychwanegol neu o allbwn model o'r system drafnidiaeth. Ym mhob achos, dylid nodi'r modd arfaethedig o ddarparu'r dystiolaeth ychwanegol hon yn Achos Cyflawni Adroddiad y Cam blaenorol.

Mae'r dewis o strwythur model a'r dulliau a'r data a ddefnyddir i ddatblygu'r model hwnnw yn dibynnu ar y math o broblem sydd dan sylw, graddfa'r buddsoddiad a'r math o effeithiau a ragwelir. Cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth gyngor technegol manwl ar fodelau trafnidiaeth yn ei dogfennau WebTAG a allai fod o gymorth.

Mae effeithiau economaidd yr opsiwn yn cynnwys asesu'r gwerth am arian a gynigir gan yr opsiwn. Mae hyn yn seiliedig ar gymharu gwerth yr effeithiau buddiol y gellir eu meintioli a phennu gwerth ariannol iddynt, gan dynnu o'r ffigur hwn werth unrhyw effeithiau andwyol y gellir eu meintioli a phennu gwerth ariannol iddynt, o'i gymharu â chost cyflawni, cynnal a gweithredu'r opsiwn.

**Rhestr wirio trafnidiaeth**

Effeithiau cymdeithasol:

Rhestr o’r effeithiau a ystyriwyd

Crynodeb o’r dulliau a ddefnyddiwyd i asesu’r effeithiau

Pwy yr effeithir arnynt a sut?

Crynodeb o’r dystiolaeth ategol ansoddol / meintiol allweddol

Effeithiau amgylcheddol:

Rhestr o’r effeithiau a ystyriwyd

Crynodeb o’r dulliau a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau

Pwy/beth yr effeithir arnynt a sut?

Crynodeb o’r dystiolaeth ategol ansoddol / meintiol allweddol

Effeithiau economaidd:

Rhestr o’r effeithiau a ystyriwyd gan gynnwys yr effeithiau economaidd ehangach

Crynodeb o’r dulliau a ddefnyddiwyd i asesu’r effeithiau

Pwy/beth yr effeithir arnynt a sut?

Costau: ystod debygol o werthoedd y costau oes gyfan ac amcangyfrif canolog. Nodi costau i’r sector cyhoeddus. Pennu lwfans risg a gogwydd optimistiaeth.

Buddion: ystod debygol yng ngwerth buddion oes gyfan ac amcangyfrif canolog; darparu tystiolaeth ategol ansoddol / meintiol. Nodi risgiau allweddol yn arwain at newidiadau o ran gwiredddu buddion ac ymddangosiad effeithiau andwyol.

Asesiad gwerth am arian

## YR ACHOS CYFLAWNI

Mae’r achos hwn yn cwmpasu **trefniadau cyflawni** y prosiect ac yna’r dull o reoli’r prosiect yn ystod ei oes. Mae’n cynnwys y trefniadau ar gyfer caffael, adeiladu a gweithredu’r ymyrraeth yn barhaus, manylion y trefniadau monitro a chyflawni’r cynllun gwerthuso. Dylid cynnwys costau’r gwaith monitro a gwerthuso yn yr achos economaidd ac ariannol. Fodd bynnag, dylid disgrifio trefniadau darparu’r cyllid ar gyfer y tasgau hyn pan fo angen, a manylion sut caiff y gwasanaethau hyn eu darparu, yn yr achos rheoli.

Mae’r achos cyflawni yn Adroddiad Cam Un yn nodi pa sefydliad a pha grwpiau o fewn y sefydliad hwnnw fydd yn rhan o’r Grŵp Adolygu sy’n cyfarfod ar ddiwedd pob Cam WelTAG. Bydd y grŵp hwn yn ystyried y cynnwys sydd yn Adroddiad y Cam ac yn penderfynu ar y camau gweithredu i’w cymryd ar ddiwedd pob Cam.

Mae’r Grŵp Adolygu hefyd yn ystyried y dulliau i’w defnyddio i fynd i’r afael ag effeithiau’r opsiwn (opsiynau) i’w datblygu yn y cam nesaf. Nodir yr argymhellion o ran gofynion tystiolaeth a modelau ychwanegol yn yr Achos Cyflawni. Mae’n bosibl y bydd y Grŵp Adolygu yn dymuno defnyddio cymorth technegol arbenigol wrth ddewis dulliau asesu, yn enwedig ar gyfer cynlluniau mawr neu gynlluniau sy’n effeithio’n sylweddol ar grwpiau o bobl neu leoliadau. Ceir cyngor technegol yn y lle cyntaf trwy anfon neges e-bost at ddesg gymorth WelTAG. WelTAG@wales.gsi.gov.uk.

**Rhestr wirio cyflawni**

Cynllun prosiect gyda cherrig milltir, yn cynnwys gwiriadau cymeradwyo a sicrwydd allweddol

A yw’r gwaith cyflawni yn seiliedig ar ddulliau a brofwyd, beth sy’n arloesol?

A oes unrhyw ofynion cyfreithiol e.e. asesiadau amgylcheddol, asesiadau o’r effaith ar iechyd, caniatâd cynllunio, pwerau cyfreithiol?

Llywodraethu, swyddogaethau a strwythur sefydliadol yn ystod y camau dilynol

Trefniadau adrodd ar y prosiect

Cynllun rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu

Cynllun gwireddu buddion

Cynllun monitro a gwerthuso, gan gynnwys yr angen am unrhyw astudiaethau cyn gweithredu

## YR ACHOS ARIANNOL

Mae'r rhan hon o'r achos busnes yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch a yw opsiwn yn **fforddiadwy** yn y man cychwyn a **hyfywedd ariannol hirdymor** y cynllun. Mae'n cwmpasu gofynion cyfalaf a refeniw blynyddol dros oes y prosiect a goblygiadau'r rhain ar gyfer y fantolen, a chyfrifon incwm a gwariant sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Mae'n rhaid nodi'n eglur unrhyw fwlch o ran cyllid. Dylid nodi ffynonellau posibl o gyllid allanol i fodloni diffygion mewn cyfalaf a refeniw, a dylid datgan gofynion a meini prawf allweddol y cyrff ariannu hynny.

Dylid nodi risgiau sy'n effeithio ar lefel ac amseriad incwm o unrhyw drydydd parti, megis ffioedd gan ddefnyddwyr. Hefyd, pan fydd y ffrydiau refeniw hyn yn dod o'r sector preifat, dylid creu cysylltiadau gyda'r manylion a ddarperir yn yr achos masnachol.

**Rhestr wirio achos ariannol**

Costau oes y prosiect

- Pryd byddant yn codi?
- Pris ar yr adeg y byddant yn codi, gan gynnwys lwfans priodol ar gyfer chwyddiant
- Pwy fydd yn talu pa gostau a phryd, gan gynnwys rhwymedigaethau cynnal a chadw?
- Manylion y lwfansau risg a'r cynlluniau wrth gefn

Ffynhonnell gyllid

- O ble y daw'r arian pan fo'i angen dros oes y prosiect?
- Pwy sy'n gyfrifol am ad-dalu cyllid a fenthycwyd?

Rhwymedigaethau Cyfrifyddu

- Ar fantolen pwy y bydd y costau a'r refeniw yn ymddangos?

## YR ACHOS MASNACHOL

Mae'r achos masnachol yn cwmpasu'r agweddau hynny ar gynllun sy'n berthnasol o ran a yw'n mynd i fod yn bosibl i gaffael y cynllun ac yna barhau â'r cynllun yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar lefel a math y cyfranogiad gan y **sector preifat** ym mhob opsiwn. Mae hyn yn cynnwys eitemau sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r opsiwn a'i hyfywedd parhaus, er enghraifft, a fydd angen parhaus am gymorth refeniw, a fydd unrhyw daliadau'n cael eu codi ar y rhai sy'n defnyddio neu'r rhai bad ydynt yn defnyddio'r cynllun, a phennu risg ar gyfer y cyfnod o ddarparu'r prosiect ac yn ystod ei weithrediad parhaus.

Mae'r achos masnachol yn nodi manylion sut, ac i ba raddau, y gellir cynnwys y sector preifat wrth gaffael a chyflawni pob opsiwn yn barhaus. Mae'r achos masnachol hefyd yn cynnwys unrhyw faterion am drefniadau cytundebol allweddol a'r posibilrwydd o drosglwyddo staff o dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.

Os oes angen arian a chyfraniadau gan drydydd parti i godi'r cyllid ar gyfer y cynllun neu ganiatáu ar gyfer ei weithredu'n barhaus, yna mae'n rhaid i'r achos masnachol nodi'r trefniadau masnachol ar gyfer darparu'r cyllid hwn, y gost sy'n debygol ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael y cyllid hwn.

**Rhestr wirio masnachol**

Manylion y canlyniadau gofynnol

Opsiynau caffael

Cyflewyr: y sector preifat a / neu'r sector cyhoeddus; nifer a phrofiad cyflenwyr tebygol

Dulliau talu e.e. yn gysylltiedig â pherfformiad ac a yw ar gael

Manylion unrhyw incwm a gynhyrchwyd a lefelau'r taliadau

Pennu a throsglwyddo risg

Hyd y contract

Materion adnoddau dynol fel yr effaith ar staff presennol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981

## ADRODDIAD AR YR ASESIAD O EFFEITHIAU WELTAG

### CYFLWYNIAD

Dogfen fyw yw'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau sy'n cael ei chynnal ac sy'n tyfu yn ystod pum cam WelTAG. Mae'n datblygu'n gofnod parhaol o'r gwaith arfarnu ar yr ymyrraeth drafnidiaeth arfaethedig. Mae'n cynnwys y dystiolaeth fanwl y tu ôl i'r wybodaeth gryno a ddarperir ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr adroddiadau ar y Camau.

Mae'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau yn cynnwys catalog o'r eitemau a roddwyd yn y storfa ddata sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'r storfa ddata hon yn cynnwys copi o'r holl ddata a'r dystiolaeth arall a ddefnyddir yn y gwaith arfarnu megis data cyfrifiad, arolygon a modelau dadansoddol. Mae manylion am fodelau trafnidiaeth a modelau eraill yn aml yn datblygu dros amser. Felly dylid rhoi copi o unrhyw fodelau yn storfa ddata'r prosiect, fel y gwnaed ar ddiwedd pob cam h.y. pan ysgrifennwyd Adroddiad y Cam perthnasol hwnnw. Yn y modd hwn, maent yn dod yn gofnod o'r dystiolaeth ategol a oedd ar gael ar adeg gwneud y penderfyniadau ar ddiwedd pob Cam.

### YN SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Mae WelTAG yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau yn cofnodi'r dystiolaeth y tu ôl i'r arfarniad sydd wedi ei gynnwys yn yr Adroddiadau ar y Camau. Gellir ysgrifennu'r Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau ar gyfer cynulleidfa fwy technegol ac mae'n rhaid iddo gynnwys digon o fanylion am y ffynonellau data a'r dulliau a ddefnyddiwyd fel y gall eraill atgynhyrchu'r canlyniadau yn hwyrach.

Pryd bynnag fo hynny'n bosibl, dylid cadw data digidol ar fformat ffeil cyffredin fel csv neu 'shapefiles' y gellir eu hagor gan ddefnyddio meddalwedd ffynhonnell agored, fel QGIS. Bydd hyn yn galluogi'r bobl hynny sy'n gwneud gwaith yn ystod camau hwyrach y broses WelTAG, megis gwaith gwerthuso Cam 5, i ail-greu'r gwaith gwreiddiol a chyflawni'r gwaith gwerthuso gan ddefnyddio'r un fersiwn gyfredol o unrhyw feddalwedd a ddefnyddiwyd. Bydd hyn yn gymorth i gynhyrchu allbynnau y gellir eu cymharu, hyd yn oed os cafwyd newidiadau meddalwedd ers gwneud y gwaith cychwynnol.

Mae'n rhaid cadw copi o unrhyw dystiolaeth a ddefnyddir gan y bobl hynny sy'n ysgrifennu unrhyw Adroddiadau ar Gamau WelTAG gan awduron yr adroddiadau hynny, ac mae'n rhaid rhoi copi arall i Lywodraeth Cymru ar adegau priodol yn ystod y broses arfarnu. Mae'n dderbyniol defnyddio data eilaidd a gwaith dadansoddi a

gynhyrchwyd gan eraill. Ond mae'n rhaid cyfeirio'n llawn at ffynhonnell wreiddiol y dystiolaeth hon hefyd yn yr Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau a, phan fo hynny'n bosibl, roi copi o'r deunydd a ddarparwyd yn y storfa ddata.

Dylid darparu manylion y gwaith sicrhau ansawdd, y gwiriadau dilysu ar unrhyw fodelau a ddefnyddiwyd i ddarparu tystiolaeth ar gyfer arfarniad WelTAG. Mae hyn yn cynnwys modelau a luniwyd gan ddefnyddio taenlenni yn ogystal â'r rhai hynny a ddatblygwyd â meddalwedd arbenigol. Dylai'r gwiriadau sicrhau bod y model yn cael ei weithredu heb gamgymeriadau ond hefyd bod y ffurf gywir o ddadansoddi wedi ei defnyddio.

Bydd ansicrwydd bob amser ynglŷn â gwaith dadansoddi. Dylid nodi'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd a sut gallai'r rhain effeithio ar y gwaith dadansoddi ac unrhyw argymhellion yn yr Adroddiadau ar y Camau. Bydd yr Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau yn cynnwys rhagor o fanylion am yr ansicrwydd hwn. Bydd hefyd yn cynnwys y gwaith a wnaed i ddeall sut byddai'r rhain yn effeithio ar unrhyw argymhellion, fel canlyniadau profion sensitifrwydd ar allbynnau allweddol a pharamedrau modelau.

Gallai dadansoddi senario fod yn ddefnyddiol i ystyried pa mor wydn yw'r dadansoddiad i newidiadau yng nghyd-destun y broblem dan sylw, y tueddiadau cyfredol o ran arferion teithio a'r mewnbynnau allweddol i unrhyw waith modelu trafnidiaeth, fel prisiau tanwydd, lefelau incwm a rhagamcanion poblogaeth.

## CYD-DESTUN

Mae'n hanfodol bod gwneuthurwyr penderfyniadau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol o amgylchiadau a chyd-destun ehangach y broblem sy'n destun arfarniad WelTAG.  Bydd yr wybodaeth hon yn cwmpasu ystod eang o feysydd, nid trafnidiaeth yn unig, a dylai amlygu dibyniaethau allweddol â ffactorau eraill.

Darperir dolenni i ffynonellau data a allai fod yn ddefnyddiol wrth bennu'r cyd-destun ar wefan WelTAG. Ceir gwybodaeth am y boblogaeth leol o'r cyfrifiad ac o ddata am gyflogaeth gan y Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES) a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae gwefan WelTAG hefyd yn cynnwys manylion am sut i fynd at rai cyfresi data y mae'n rhaid cyfyngu arnynt am resymau diogelu data neu nad ydynt ar gael am ddim am resymau masnachol. Mae'r wefan yn cynnwys catalog o'r cyfresi data ac yn nodi'r broses i'w dilyn i gael awdurdod i ddefnyddio'r data hyn.

Bellach mae swm cynyddol o ddata ar gael ar y rhyngrwyd, fel amserau gwirioneddol trenau a bysiau. Mae gwefan WelTAG yn cynnwys dolenni i lawer o'r rhain ond mae'n bosibl y bydd lleoliadau gwefannau allanol yn newid a bod cyfresi data eraill ar gael nad oes cyfeiriad atynt ar wefan WelTAG.

Cyfrifoldeb y bobl hynny sy'n defnyddio gwefannau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru yw gwirio ffynhonnell y data a ddarperir ar y gwefannau hyn a chadw copïau â chyfeiriad llawn ar gyfer y data sy'n cael ei lawrlwytho ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol.

Mae gwefan y llywodraeth hefyd yn cynnwys dolenni at ragamcanion, er enghraifft lefelau'r boblogaeth yn y dyfodol. Mae cynlluniau awdurdodau lleol yn darparu manylion am gynlluniau o fwriad i newid y defnydd o dir.

## MANYLION YR EFFEITHIAU A DDISGWYLIR

Mae'r adroddiadau WelTAG ar Gamau Un, Dau a Thri yn cyflwyno crynodeb o'r effeithiau a ddisgwylir o'r ymyraethau arfaethedig, pwy neu beth fydd yn profi'r effeithiau hyn, a'r potensial i wireddu'r buddion cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol.

Dylai'r Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau gynnwys manylion llawn y dystiolaeth, y data a'r dulliau a ddefnyddir i gefnogi'r datganiadau a wneir yn yr adroddiadau ar y Camau. Bydd lefel y manylion yn yr asesiad yn cynyddu trwy gamau'r broses WelTAG a dylai'r Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau nodi'n eglur unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a nodi'r cynlluniau ar gyfer llenwi'r bylchau hyn.

Erbyn diwedd Cam Tri, dylai fod gan yr Achos Busnes Llawn wybodaeth lawn am yr holl effeithiau a ddisgwylir ar y lefel sy'n briodol ar gyfer graddfa'r effaith dan sylw. Yng Nghamau Un a Dau dylid nodi meysydd o wybodaeth anghyflawn yn eglur yn yr Adroddiad ar y Cam hwnnw. Dylai'r Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effeithiau gynnwys manylion y dyfarniadau a wnaed a'r tybiaethau y tu ôl i'r asesiadau a ddarperir yn yr Adroddiad ar y Cam hwnnw. Dylai hefyd ddarparu datganiad eglur o'r tybiaethau a wnaed a dadansoddiad o'r ansicrwydd ynghylch yr asesiadau.

## YR EFFEITHIAU A WIREDDWYD

Dylai'r adroddiadau ar ddiwedd Cam Pedwar a Cham Pump o WelTAG gynnwys tystiolaeth o'r effeithiau a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Dylai hyn gynnwys manylion y cyd-destun ehangach ynghylch y gweithrediad a effeithiodd ar y cynllun megis amodau tywydd yn ystod y gwaith adeiladu, amodau ar ddulliau eraill o deithio, prisiau tocynnau teithio a phrisiau tanwydd.

Y rheswm dros gofnodi'r effeithiau a ddigwyddodd yw gwerthuso'r cynllun a weithredwyd a darparu'r data y mae eu hangen er mwyn cymharu'r effeithiau a'r canlyniadau disgwyliedig â'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Gallai diben yr ymarfer hwn arwain at addasu'r cynllun ond bydd hefyd yn darparu adborth i bobl sy'n cynllunio ymyraethau yn y dyfodol. Yr adborth hwn sy'n gwneud WelTAG yn broses ddysgu.

Gall yr adborth arwain at addasu cynllun ymyraethau yn y dyfodol a/neu newidiadau i'r dulliau a ddefnyddir i ddeall beth fydd effeithiau tebygol ymyrraeth.

## MATHAU O EFFEITHIAU

Dylai arfarniad WelTAG ystyried yr ystod eang o effeithiau cyfredol a achosir gan y broblem sy'n cael ei harchwilio, yr effeithiau tebygol yn y dyfodol os nad oes camau gweithredu'n cael eu cymryd, y gwahaniaeth y bydd yr ymyrraeth arfaethedig yn ei wneud, ac unrhyw effeithiau eraill a fyddai o ganlyniad gweithredu'r ateb arfaethedig.

Dylai archwiliad o'r effeithiau posibl amrywio'n eang er mwyn casglu cymaint o'r effeithiau â phosibl. Dylid cyflwyno'r effeithiau o dan dri phennawd; cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r tair adran ganlynol yn rhoi'r effeithiau posibl y dylid bob amser eu hystyried, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac mae'n bosibl bod rhai eraill yn berthnasol.

Nod arfarniad WelTAG ar bob cam yw cyflwyno crynodeb i'r gwneuthurwyr penderfyniadau ar gyfer pob effaith bosibl, yn nodi natur yr effaith, ei ddifrifoldeb a pha grwpiau o bobl neu leoliadau yr effeithir arnynt. Gallai'r effeithiau fod yn fuddiol i rai grwpiau ond yn andwyol i grwpiau eraill a dylai Adroddiadau Camau WelTAG nodi hyn yn eglur. Mae angen i lefel y dadansoddi fod yn ddigonol er mwyn darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer y penderfyniadau y mae angen eu gwneud ar ddiwedd pob Cam.

Ar Gam Un: Achos Amlinellol Strategol, mae'r asesiadau o'r effeithiau yn debygol o od yn ansoddol yn bennaf a dylid nodi nifer y bobl yr effeithir arnynt. Yn ystod Cam Dau: y Cam Achos Busnes Amlinellol, dylai lefel meintioli'r effeithiau gynyddu ar gyfer yr effeithiau hynny sy'n berthnasol i'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud. Erbyn yr Achos Busnes Llawn, dylai'r holl effeithiau perthnasol fod wedi'u meintioli, ochr yn ochr ag asesiadau ansoddol, os oes dulliau priodol o wneud hynny ar gael.

Ni ddylai'r gwaith arfarnu bennu pwysoliadau i'r effeithiau. Y gwneuthurwyr penderfyniadau ar ddiwedd bob Cam ac, yn y pen draw, y cynrychiolwyr etholedig fydd yn penderfynu ar fanteision newidiadau i'r system trafnidiaeth a'r cydbwysedd anorfod rhwng y costau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd a buddion y cynlluniau arfaethedig, o'u cymharu â'r dewis arall sef peidio ag ymyrryd yn y system drafnidiaeth.

## EFFEITHIAU CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

**Gweithgarwch corfforol:** faint o gerdded, beicio ac ymarfer corff arall y mae pobl yn ei wneud

**Ansawdd teithiau:** er enghraifft, pa mor gyfforddus yw'r cerbyd a pha mor hawdd yw cael gwybodaeth

**Damweiniau:** nifer a difrifoldeb anafiadau

**Diogelwch:** pa mor ddiogel y mae pobl yn teimlo

**Pa mor hawdd yw cael swyddi:** faint o swyddi sydd o fewn cyrraedd pobl a beth yw amser y daith

**Pa mor hawdd yw cael gwasanaethau:** yr effaith ar deithiau i gael gwasanaethau allweddol fel cyfleusterau iechyd, ysgolion

**Fforddiadwyedd:** a oes unrhyw newid i'r costau teithio a delir gan ddefnyddwyr

**Gwahanu ardaloedd o boptu'r ffordd:** a oes unrhyw grwpiau o bobl yn cael eu gwahanu oddi wrth bobl eraill neu oddi wrth gyfleusterau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd

**Gwerthoedd opsiwn a pheidio defnyddio:** a yw'r cynllun yn darparu dewisiadau amgen ar gyfer teithiau presennol ac a yw'n newid cydnerthedd y system drafnidiaeth

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

**Sŵn:** a oes unrhyw un yn profi newid mewn lefelau sŵn

**Ansawdd yr aer:** a oes newidiadau yn ansawdd yr aer

**Nwyon tŷ gwydr:** a oes newid yn swm y nwyon tŷ gwydr a ollyngir

**Tirlun:** a oes effaith weledol neu effaith arall ar y tirlun

**Treflun:** a oes effaith weledol neu effaith arall ar y treflun

**Amgylchedd Hanesyddol:** a oes unrhyw newidiadau i ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol

**Bioamrywiaeth:** a oes effaith ar fywyd gwyllt a nifer y rhywogaethau

**Amgylchedd dŵr:** a oes effaith ar ddyfrffyrdd

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

**Newidiadau i amserau teithio:** ar draws yr holl ddulliau teithio yr effeithir arnynt ar gyfer defnyddwyr y cynllun a phobl nad ydynt yn ei ddefnyddio

**Newidiadau i ddibynadwyedd amserau teithio:** newidiadau yn yr amrywiaeth mewn amserau teithio rhwng amserau o'r dydd a rhwng teithiau a wneir ar yr un amser bob dydd

**Costau cludiant:** costau ariannol a delir gan deithwyr e.e. costau cynnal cerbyd, tollau, tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus

**Damweiniau:** cost damweiniau

**Newidiadau mewn cynhyrchiant:** gweithwyr addas ar gael ar gyfer cyflogwyr, newidiadau o ran effeithiau cydgysylltu ardaloedd

**Economi leol:** sut mae'r cynllun yn effeithio ar y sectorau yn yr economi leol

**Tir:** a yw'r cynllun yn lleihau'r swm o dir amaethyddol, a yw'n agor safleoedd datblygu

**Costau cyfalaf:** i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat, o'r cynllun ei hun ac o'i effeithiau

**Costau refeniw:** i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat, i'r defnyddwyr terfynol, o'r cynllun ei hun ac o'i effeithiau

## GWERTH AM ARIAN

Mae'r gymhareb costau a manteision yn llywio gwerth yr asesiad ariannol sy'n un o'r meini prawf a ddefnyddir i hysbysu'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymyrraeth arfaethedig. Dylai'r gymhareb costau a manteision graidd gynnwys yr un buddion a gwerth ariannol â'r hyn sydd wedi eu cynnwys ym meddalwedd TUBA yr Adran Drafnidiaeth. Ceir cynnwys eitemau ychwanegol, fel effeithiau economaidd ehangach, mewn ail ffigur a elwir yn gymhareb costau a buddion ehangach. Dylid edrych ar wefan WelTAG am fanylion meysydd y mae'r dulliau a'r technegau arfarnu a argymhellir ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn wahanol i'r rhai hynny a nodir yng nghanllawiau WebTAG yr Adran Drafnidiaeth.

Dylid darparu manylion llawn y dulliau o gasglu'r dystiolaeth a ddefnyddir yn yr achos strategol a'r achos trafnidiaeth yn yr Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau.

## DULLIAU O ASESU'R EFFEITHIAU

Nid yw WelTAG yn pennu pa ddulliau y dylid eu defnyddio i asesu effeithiau gan fod hwn yn faes sy'n newid yn barhaus. Ond dylai'r dulliau a ddefnyddir fod yn briodol ar gyfer deall graddfa a difrifoldeb pob effaith. Dylid nodi'r dulliau y cynigir eu defnyddio

ar gyfer asesu effeithiau yn ystod y cam nesaf yn yr Adroddiad ar gyfer y cam blaenorol a dylai'r Grŵp Adolygu gytuno ar hyn.

Yn gyffredinol, dylai'r dulliau a ddefnyddir i asesu'r effeithiau ddilyn y cyngor a nodir gan yr Adran Drafnidiaeth yn y Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth (WebTAG). Nid yw hyn yn eich rhwystro rhag gwneud defnydd ychwanegol o dechnegau arfarnu arloesol sy'n gallu rhoi cipolwg pellach ar effeithiau tebygol cynllun neu gefnogi'r naratif o ran sut bydd yr ymyrraeth arfaethedig yn arwain at y canlyniadau a ddisgwylir.

Dylai'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir i ragweld effeithiau yn y dyfodol ddefnyddio dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol. Yn ystod Cam Un bydd llawer o'r gwaith arfarnu yn seiliedig ar ddata eilaidd (ffynonellau data sydd eisoes ar gael). Ond wrth i'r arfarniad barhau bydd angen data newydd, sylfaenol. Mae gwefan WelTAG yn cynnwys dolenni at ffynonellau defnyddiol o ddata eilaidd a chyngor ynglŷn â chasglu data sylfaenol.

Ar gyfer llawer o gynlluniau trafnidiaeth, bydd modelau amgylcheddol ac ariannol yn cael eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth o effeithiau peidio ag ymyrryd yn y system drafnidiaeth yn y dyfodol a chanlyniadau'r ymyraethau eraill dan sylw. Dylid cofnodi'r holl fodelau hyn yn llawn yn yr Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau a dylid rhoi copïau yn y storfa ddata.

Gall tystiolaeth o astudiaethau achos yn y DU a thu hwnt fod yn ddefnyddiol yn y gwaith arfarnu. Ond dylid esbonio'r gwahaniaethau perthnasol yng nghyd-destun yr astudiaeth achos a'r defnydd arfaethedig yng Nghymru.

## YMESTYN Y NARATIF

Dylid llunio cynllun monitro a gwerthuso manwl yng Ngham Tri. Dylai'r cynllun hwn ddisgrifio pa dystiolaeth a ddefnyddir yn adroddiad gwerthuso'r prosiect a sut y caiff ei chasglu. Mae tystiolaeth yn ofynnol ar gyfer yr union allbynnau a ddefnyddiwyd wrth weithredu'r cynllun ac yn ystod y broses o'i weithredu'n barhaus, yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, yr effeithiau a gafwyd, i ba raddau yr oedd yr ymyrraeth yn bodloni'r amcanion a sut y'u cyflawnwyd.

Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso nodi'r amserlen a'r adnoddau gofynnol ar gyfer cynhyrchu'r adroddiadau gwerthuso yng Ngham Pedwar a Phump.

## GWYBODAETH AM Y CYD-DESTUN

Dylid paratoi gwybodaeth am gyd-destun yr ymyrraeth gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, megis newidiadau ym mhrisiau tanwydd, twf cyffredinol yn lefelau traffig a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ehangach. Argymhellir cadw dyddiadur neu gofnod yn ystod y gwaith o weithredu'r ymyrraeth. Gellir defnyddio hyn i gofnodi digwyddiadau fel y tywydd, newidiadau ym mhris tanwydd, prisiau

tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus a/neu brisiau meysydd parcio; ac yna pan fyddai datblygiadau newydd yn agor, pa rai y gellid disgwyl iddynt effeithio ar wireddu'r effeithiau a lefel yr effeithiau a achosir gan yr ymyrraeth.

### TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Dylai'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyflwyno'r cyd-destun, mewnbynnau, allbynnau, canlyniadau a fwriadwyd a'r union ganlyniadau fod yn seiliedig, cyn belled â phosibl, ar ddata sydd ar gael ar y pryd. Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso ddisgrifio sut y bydd data perthnasol a gasglwyd eisoes yn cael eu defnyddio, a dylai'r data hynny fod ar gael wrth i'r adroddiad gwerthuso cael ei ysgrifennu.

### TYSTIOLAETH BWRPASOL

Bydd y cynllun monitro yn nodi manylion pan fydd data yn cael eu casglu yn benodol er mwyn gwerthuso'r ymyrraeth arfaethedig. Gallai hyn gynnwys arolygon fel grwpiau ffocws gyda defnyddwyr yr ymyrraeth a phobl nad ydynt yn ei defnyddio, ac arolygon ansoddol. Pan fo swm sylweddol o arian wedi'i gynnig ar gyfer arolygon, un ai o ran y gost gyfan neu fel cyfran o gyfanswm cost yr ymyrraeth, yna dylid cyflwyno yn y cynllun monitro ddisgrifiad manwl o'r arolwg arfaethedig a chyfiawnhad o'r angen am yr arolygon.

Mae lefel y defnydd o unrhyw ran o'r system drafnidiaeth yn newid yn ddyddiol a dylid darparu tystiolaeth ar raddfa'r newid dyddiol yn yr ardal yn gyffredinol. Ceir yr wybodaeth hon gan beiriannau cyfrif traffig awtomatig, data gan weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a pheiriannau cyfrif beiciau awtomatig.

Dylai'r adroddiadau WelTAG a gaiff eu llunio ar Gam Pedwar a Cham Pump gyflwyno'r dystiolaeth ar effeithiau'r cynllun. Dylid cofnodi effeithiau manteisiol ac andwyol. Dylai'r adroddiad gynnwys unrhyw effeithiau a ddigwyddodd ond na chawsant eu rhagweld yn ystod camau cynnar yr arfarniad ond a welwyd yn ystod y gwaith o weithredu'r cynllun ac ar ôl hynny.

## STORFA DDATA

Mae'r storfa ddata yn gofnod o'r gwaith arfarnu a gynhaliwyd. Dylai gynnwys adolygiad o'r dystiolaeth a gymerwyd o ffynonellau eraill a ddefnyddiwyd yn y broses arfarnu a chopïau o unrhyw dystiolaeth newydd a gynhyrchwyd. Gall y dystiolaeth newydd hon fod yn ansoddol, fel canlyniadau arolygon a grwpiau ffocws, neu yn feintiol, fel dadansoddiad o'r niferoedd sy'n defnyddio trafnidiaeth a data am bris tocynnau ac allbynnau trafnidiaeth, ariannol, amgylcheddol neu fodelau eraill.

Mae gwefan WelTAG yn cynnwys cyngor ar storio cyfresi data digidol. Dylai'r data gael ei gatalogio a'i gofnodi'n eglur. Pryd bynnag fo hynny'n bosibl, dylid cadw data ar fformat ffeil safonol fel ffeiliau testun neu csv yn hytrach na fformat ffeiliau a ddefnyddir gan feddalwedd masnachol. Dylid darparu nodiadau llawn ar y

feddalwedd a ddefnyddiwyd i gynhyrchu unrhyw fodelau a dylid cyflwyno digon o wybodaeth a data er mwyn i bobl eraill allu atgynhyrchu'r modelau a'u hallbynnau yn y dyfodol.

Dylai Adroddiad WelTAG ar yr Asesiad o'r Effeithiau gynnwys catalog o'r data, modelau a ffynonellau tystiolaeth eraill sy'n cael eu defnyddio yn yr arfarniad ac yn cael eu cadw yn y storfa ddata. Dylai gofnodi pa eitemau sydd ar gael i'r cyhoedd a'r rhai sy'n gyfyngedig oherwydd problemau megis cyfrinachedd personol neu fasnachol.

## CYFEIRIADAU

Public Sector Business Cases, Using the Five Case Model. Green Book Supplementary Guidance on Delivering Public Value from Spending Proposals. Trysorlys Ei Mawrhydi Gorffennaf 2013

The Green Book. Trysorlys Ei Mawrhydi 2003

Logic Mapping: Hint and Tips for Better Transport Evaluations. Tavistock Institute. 2010